Llywodraeth Cymru

Tachwedd 2019

# Canllawiau ar Reoliad (CE) rhif 1069/2009 a'r Rheoliad Gweithredu Cysylltiedig (CE) rhif 142/2011, a roddir mewn grym yng Nghymru gan Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad ... 1
2. Y gynulleidfa arfaethedig ... 2
3. Cwmpas rhanbarthol ... 2
4. Diben a statws cyfreithiol ... 2
5. Cefndir rheoleiddiol ... 2
6. Trosolwg o'r newidiadau yn y Rheoliadau newydd ... 4
7. Diffiniad o "sgil-gynhyrchion anifeiliaid" ... 5
8. Categorïau "sgil-gynhyrchion anifeiliaid" ... 6
9. Cyfyngu ar ddefnydd ... 7
10. Gwaredu a defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid ... 7
11. Gofynion o ran casglu ac adnabod mewn perthynas â chategori a chludo ... 8
12. Cofrestru a chymeradwyo ... 9
13. Mathau o safleoedd sy'n trin sgil-gynhyrchion ... 10
14. Rhanddirymiadau ('llacio rheolau') ... 13
15. Meysydd disgresiwn cenedlaethol ... 17
16. Troseddau a chosbau dan y Rheoliadau ... 20
17. Mewnforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid ... 21
18. Allforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid ... 22
19. Cwestiynau cyffredin ... 22


## 1. Cyflwyniad

Daeth Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 sy'n pennu rheolau iechyd yn ymwneud â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid nad oes bwriad i bobl eu bwyta, a'r Rheoliad Gweithredu cysylltiedig (CE) rhif 142/2011, i rym ar 4 Mawrth 2011.

Lluniwyd y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno gwybodaeth

ynghylch sut i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol deddfwriaeth yr UE a'n Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 domestig, sy'n gweinyddu ac yn gorfodi Rheoliadau'r UE. Mae'r Rheoliadau hyn yn bellgyrhaeddol ac maent yn cwmpasu sawl sector amrywiol. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r gwahanol gategorïau o sgil-gynhyrchion anifeiliaid, sut dylid eu defnyddio neu eu gwaredu, a ble y gellir gwneud hyn yn ddiogel. Ymhellach, maent yn esbonio pa sgil-gynhyrchion anifeiliaid na chânt eu cynnwys o fewn cwmpas y Rheoliadau.

Yn y pen draw, cyfrifoldeb busnesau unigol yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Nid yw cydymffurfio â'r cyngor ar arferion da yn ofynnol yn ôl y gyfraith. Efallai y bydd busnesau a chanddynt ymholiadau penodol yn dymuno gofyn i'w hasiantaeth orfodi leol am gyngor – sef yr adran safonau masnach/iechyd yr amgylchedd yn eu hawdurdod lleol, fel arfer.

## 2. Y gynulleidfa arfaethedig

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i unrhyw unigolyn/busnes sy'n cynhyrchu, yn defnyddio, yn gwaredu, yn storio, yn trin neu'n cludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

## 3. Cwmpas rhanbarthol

Dim ond i Gymru mae'r canllawiau hyn yn berthnasol. Bydd gweinyddiaethau yn y DU yn paratoi deddfwriaeth ddomestig gyfatebol a byddant yn llunio eu canllawiau eu hunain (dolenni isod).

Canllawiau'r Alban
Canllawiau Lloegr
Canllawiau Gogledd Iwerddon

## 4. Diben a statws cyfreithiol

Yn y canllawiau hyn ceir cyngor ynglŷn â chydymffurfio â gofynion Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 a Rheoliad Gweithredu (CE) rhif 142/2011. Mae Rheoliadau'r UE yn uniongyrchol berthnasol i holl Aelod-wladwriaethau'r UE a rhaid cydymffurfio â'u darpariaethau.

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 yw'r ddeddfwriaeth genedlaethol yng Nghymru sy'n gweinyddu ac yn gorfodi Rheoliadau'r UE. Mae'r ddeddfwriaeth genedlaethol hon yn darparu ar gyfer troseddau'n ymwneud â pheidio â chydymffurfio â Rheoliadau'r UE, a chaiff ei gorfodi gan awdurdodau lleol. Ymhellach, mae'n darparu ar gyfer rhanddirymiadau (llacio rheolau) a rheolau cenedlaethol mae rheolau'r UE yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau eu harfer.

Bydd Rheoliad (CE) rhif 1069/2009, a'r rheolau gweithredu cysylltiedig, yn disodli Rheoliad (CE) rhif 1774/2002. Mae Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 wedi disodli a dirymu Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011, a ddisodlodd Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011.

Bydd Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011 yn gorfodi agweddau ar Reoliadau'r UE yn ymwneud â mewnforio a masnachu o fewn yr UE. Gweler Adran 17 i gael rhagor o fanylion.

Bwriedir i'r canllawiau hyn ategu'r Rheoliadau amrywiol yma.

## 5. Cefndir rheoleiddiol

Gall sgil-gynhyrchion anifeiliaid fod yn risg i iechyd pobl ac anifeiliaid, yn enwedig o

safbwynt Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy, halogiad deuocsin a chlefydau egsotig fel Clwy Clasurol y Moch a Chlwy'r Traed a'r Genau.

Mae Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 a'r Rheoliad Gweithredu cyfatebol (CE) rhif 142/2011 yn diddymu ac yn disodli Rheoliad (CE) rhif 1774/2002. Mae wedi deillio o adolygiad maith a chynhwysfawr a gynhaliwyd gan Gomisiwn yr UE i asesu'r modd y caiff mesurau rheoli sgil-gynhyrchion eu rhoi ar waith ar draws yr UE. Yn ôl adroddiad cychwynnol a gyflwynwyd i Senedd a Chyngor Ewrop gan y Comisiwn gyda'r Aelod-wladwriaethau yn 2005, er bod y ddeddfwriaeth yn gweithio'n dda ac er ei bod, ar y cyfan, yn cwrdd â'i hamcanion cyffredinol, roedd meysydd i'w cael lle'r oedd angen ystyried newidiadau er mwyn diweddaru'r ddeddfwriaeth a darparu sicrwydd cyfreithiol, ei symleiddio, a thrwy hynny leihau'r baich ar fusnesau. O ganlyniad, bu'r Comisiwn yn ymgynghori'n helaeth, gan gynnwys yr holl Aelod-wladwriaethau, gyda golwg ar ail-lunio Rheoliad (CE) rhif 1774/2002 er mwyn diwallu egwyddorion rheoleiddio gwell, gwella'r mesurau a'u gwneud yn fwy effeithiol ac effeithlon, a lleihau'r baich diangen ar weithredwyr, wrth sicrhau na châi iechyd y cyhoedd, iechyd anifeiliaid na diogelwch bwyd eu tanseilio.

Mae Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 a Rheoliad Gweithredu (CE) rhif 142/2011 yn parhau i fod â chwmpas eang iawn, gan gwmpasu cynhyrchion anifeiliaid o bob math, yn cynnwys cig, pysgod, llaeth ac wyau nad oes bwriad i bobl eu bwyta, a chynhyrchion eraill sy'n deillio o anifeiliaid yn cynnwys crwyn, plu, gwlân, esgyrn, cyrn a charnau. Mae'n ymdrin hefyd â charcasau stoc drig ar ffermydd, anifeiliaid anwes, ac anifeiliaid gwyllt pan amheuir eu bod yn afiach. Mae'n parhau i reoleiddio'r defnydd o sgil-gynhyrchion anifeiliaid, er enghraifft fel porthiant (yn cynnwys bwyd ar gyfer anifeiliaid anwes), gwrtaith neu ar gyfer cynhyrchion technegol, ac mae'n pennu rheolau ar gyfer eu trawsnewid trwy gompostio a bio-nwy a'u gwaredu trwy eu rendro a'u llosgi. Ymhellach, mae'n parhau i atal gwastraff arlwyo rhag cael ei fwydo i dda byw.

Fodd bynnag, er mwyn ystyried y pryderon a ddaeth i'n sylw yn ystod yr adolygiad, mae Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 bellach yn:

- Cynnig gwell eglurder ynglŷn â chwmpas y Rheoliad, gan ddiffinio'n well yr achosion pan na chaiff cynhyrchion eu hystyried mwyach fel sgil-gynhyrchion anifeiliaid a phan fônt, felly, wedi'u heithrio rhag mesurau rheoli'r Rheoliad;
- Gwella'r dull o gategoreiddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn unol â'u risg (Categori 1 yw'r categori risg uchaf a Chategori 3 yw'r categori risg isaf);
- Cael gwared ag achosion ddyblygu cymeradwyaeth ar gyfer rhai safleoedd;
- Cyflwyno mwy o randdirymiadau y gall Aelod-wladwriaethau eu defnyddio;
- Cynnwys darpariaeth ar gyfer dulliau amgen, fel ynysu ar y fferm;
- Mynnu bod cludwyr, a safleoedd nad ydynt yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth lawn, yn cofrestru.

Bydd y Rheoliadau'n effeithio ar unrhyw berson neu fusnes sy'n cynhyrchu, yn defnyddio, yn gwaredu, yn storio, yn trin neu'n cludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Mae'r gyfundrefn hon yn cysylltu â phecyn o gyfundrefnau rheoleiddio, fel Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE), a mesurau rheoli hylendid bwyd sydd hefyd yn darparu ar gyfer gofynion yn ymwneud â sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

## 6. Trosolwg o'r newidiadau yn y Rheoliadau newydd

Er bod fframwaith cyffredinol y mesurau ar gyfer rheoli sgil-gynhyrchion anifeiliaid fwy neu lai yr un fath â'r ddeddfwriaeth flaenorol, bydd y Rheoliadau newydd yn cynnig gwell eglurder cyfreithiol, yn symleiddio rhai gofynion ac yn lleihau'r baich ar weithredwyr. Maent hefyd yn ystyried datblygiadau mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, ac yn diwygio'r ffordd y caiff rhai sgil-gynhyrchion anifeiliaid eu categoreiddio, ar sail eu risg. Dyma'r prif feysydd sydd wedi'u newid:

### (a) Cyflwyno pwyntiau terfyn mewn perthynas â sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Mae'r Rheoliad yn cyflwyno'r cysyniad o gael **"pwynt terfyn"** wrth weithgynhyrchu sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Ar ôl y pwynt hwn, ni fydd y cynhyrchion sydd wedi'u prosesu yn ddarostyngedig mwyach i'r Rheoliad – oherwydd fe fydd rhai risgiau posibl wedi cael eu dileu, e.e. trwy wres neu sylweddau cemegol. Yn hytrach, bydd rheolau cyffredinol yn ymwneud â diogelwch cynhyrchion yn berthnasol. Mae tynnu rhai cynhyrchion gorffenedig o gwmpas y Rheoliad – fel cynhyrchion cosmetig, dyfeisiadau meddygol a phecynnau diagnostig in vitro – yn lleihau'r baich ar weithredwyr e.e. o safbwynt labelu a chadw cofnodion.

### (b) Diogelwch y gadwyn fwyd

Caiff y gwahaniaeth rhwng bwydydd a sgil-gynhyrchion anifeiliaid ei egluro trwy gadarnhau bod angen i weithredwyr wneud penderfyniad di-droi'n-ôl os bydd cynhyrchion yn cael eu defnyddio at ryw bwrpas ac eithrio ar gyfer eu bwyta gan bobl. Golyga hyn na ddylai cynnyrch ailymuno â'r gadwyn fwyd ar ôl iddo fynd yn sgil-gynnyrch anifeiliaid.

### (c) Newidiadau i gategorïau rhai sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Caiff rhai sgil-gynhyrchion anifeiliaid – sydd, hyd yn hyn, wedi'u dosbarthu'n awtomatig fel deunyddiau Categori 2, ond lle profwyd nad oes ganddynt unrhyw risg fawr – eu hailddosbarthu fel deunyddiau Categori 3, er mwyn caniatáu iddynt gael eu defnyddio at rai dibenion bwydo. Mae hyn yn cynnwys gwaed anifeiliaid cnoi cil ifanc ac anifeiliaid cnoi cil sydd wedi pasio prawf Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy; cywion diwrnod oed; ac infertebratau daearol a dyfrol. Dylid nodi na ellir gwneud defnydd o waed anifeiliaid cnoi cil i gynhyrchu cynhyrchion gwaed a blawd gwaed a ddefnyddir fel proteinau cyfyngedig ar gyfer bwydo anifeiliaid fferm nad ydynt yn anifeiliaid cnoi cil dan y Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy. Fodd bynnag, yn achos cywion sydd wedi marw yn y plisgyn, maent wedi cael eu symud o Gategori 3 i Gategori 2. Ymhellach, mae deunydd wedi'i ddifetha wedi cael ei gadarnhau fel deunydd Categori 3 gydag opsiynau gwaredu caniataol cyfyngedig (e.e. ni ellir ei ddefnyddio mewn bwyd ar gyfer anifeiliaid anwes). Yn achos sgil-gynhyrchion anifeiliaid o fath arall a restrir dan un o'r tri chategori, byddant yn parhau i gael eu dosbarthu fel deunyddiau Categori 2 am resymau rhagofalus.

### (d) Safleoedd sy'n trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Yn awr, bydd angen i safleoedd sy'n *trin* sgil-gynhyrchion anifeiliaid gael eu cymeradwyo neu eu cofrestru. Os yw eich safle chi'n trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid, ac os nad ydych eisoes wedi cael cymeradwyaeth neu ganiatâd dan reoliadau blaenorol, dylech gysylltu â'ch swyddfa Iechyd Anifeiliaid ranbarthol, a fydd yn esbonio'r gofynion i chi.

Chwiliwch am eich swyddfa Iechyd Anifeiliaid ranbarthol yma

**(e) Cofrestru a chymeradwyo safleoedd**

Mae rhai newidiadau wedi'u cyflwyno i ofynion yn ymwneud â chofrestru a chymeradwyo gweithredwyr sy'n trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Er enghraifft, yn achos safleoedd technegol a gâi eu cymeradwyo o'r blaen gan swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid, yr unig ofyn yn y dyfodol yw y bydd angen iddynt gofrestru a bydd hyn yn lleihau'r baich ar weithredwyr.

Bydd angen i rai cludwyr sgil-gynhyrchion anifeiliaid gofrestru am y tro cyntaf. Mae'r gofyn hwn wedi'i gyflwyno er mwyn ei gwneud hi'n haws eu holrhain. Gweler adran 12 am ragor o fanylion.

**(f) Eithriad compostio gartref**

Fel arfer, pan gaiff sgil-gynhyrchion anifeiliaid a gwastraff arlwyo eu compostio neu eu treulio'n anaerobig, rhaid gwneud hyn ar safle sy'n bodloni'r safonau hylendid a'r gofynion trin a bennir yn y ddeddfwriaeth ac ar safle sydd wedi'i gymeradwyo ar gyfer y pwrpas hwnnw gan swyddfa Iechyd Anifeiliaid. O'r blaen, roedd gennym eithriad 'compostio gartref' a oedd yn caniatáu compostio gwastraff arlwyo ar y safle y deilliodd ohono, heb fod angen cymeradwyaeth gan swyddfa Iechyd Anifeiliaid. Yn bennaf, roedd hyn yn caniatáu i ddeiliaid tai gompostio'u gwastraff cegin yn eu gardd, ond gallai ysgolion, prifysgolion, ysbytai neu safleoedd eraill ddefnyddio'r eithriad hefyd, cyn belled â bod y compost a gâi ei greu yn cael ei gadw ar y safle. Yn awr, rydym wedi ymestyn yr eithriad hwn i gynnwys treulio anaerobig, ynghyd â chaniatáu i'r compost gael ei ddefnyddio oddi ar y safle mewn rhai sefyllfaoedd pan na cheir unrhyw risg y bydd da byw yn dod i gysylltiad ag ef. Fe fydd hyn o fudd arbennig i brosiectau compostio a phrosiectau anaerobig cymunedol, a all fynd ati i gynnal cynlluniau cymdogaeth neu gymunedol bach heb orfod cael cymeradwyaeth lawn gan swyddfa Iechyd Anifeiliaid.

**(g) Sgil-gynhyrchion anifeiliaid hela gwyllt**

Yn awr, fe fydd angen i Sefydliadau Trin Anifeiliaid Hela waredu sgil-gynhyrchion a gynhyrchir ar eu safleoedd yn unol â'r Rheoliadau. Dylai Sefydliadau Trin Anifeiliaid Hela gysylltu â'u swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol i gael rhestr o gasglwyr gwastraff cofrestredig.

**(h) Rhanddirymiadau a meysydd disgresiwn cenedlaethol**

Mae'r Rheoliadau'n caniatáu i Aelod-wladwriaethau allu manteisio ar randdirymiadau amrywiol mewn perthynas â'r prif fesurau rheoli sgil-gynhyrchion anifeiliaid a meysydd disgresiwn cenedlaethol. Mae rhai o'r rhain yn parhau â rhanddirymiadau blaenorol (fel defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid wrth fwydo mewn cynelau hela), mae rhai'n ymestyn rhanddirymiadau blaenorol (fel caniatáu yn awr i fwydo carcasau anifeiliaid sw i anifeiliaid cigysol eraill yn y sw, pan na fydd hynny'n arwain at risg), ac mae rhai'n newydd (fel cyflwyno'r cysyniad o 'rywfaint bach' o sgil-gynhyrchion anifeiliaid lle ceir mwy o ddewis nag o'r blaen o safbwynt eu gwaredu, y posibilrwydd o wasgaru plisg wyau ar dir dan reolau cenedlaethol, a defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn amaethyddiaeth fiodynamig). Caiff y rhanddirymiadau a'r meysydd disgresiwn cenedlaethol eu trafod yn fanwl yn adrannau 14 ac 15 y Canllawiau hyn.

## 7. Diffiniad o "sgil-gynhyrchion anifeiliaid"

Caiff sgil-gynhyrchion anifeiliaid eu diffinio yn Erthygl 3 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 fel cyrff cyfan anifeiliaid neu rannau o anifeiliaid, cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid neu gynhyrchion eraill a ddaw o anifeiliaid **nad oes bwriad i bobl eu bwyta**. Mae hyn yn cynnwys gwastraff arlwyo, olew coginio sydd wedi'i ddefnyddio, hen fwyd, gwastraff siopau cig a lladd-dai, gwaed, plu, gwlân, crwyn, stoc drig, anifeiliaid anwes, anifeiliaid sw a syrcas, troffïau hela, tail, ofa, embryonau a semen nad oes bwriad i bobl eu bwyta.

## 8. Categorïau "sgil-gynhyrchion anifeiliaid"

Yn ôl Rheoliad (CE) rhif 1069/2009, gall sgil-gynhyrchion anifeiliaid ddod o dan un o blith tri chategori.

### (a) Deunyddiau Categori 1

Caiff deunyddiau Categori 1 eu diffinio yn Erthygl 8. Deunyddiau Categori 1 yw'r deunyddiau uchaf eu risg, ac yn bennaf maent yn cynnwys deunyddiau a ystyrir yn risg Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy, fel Deunyddiau Risg Penodedig (y rhannau hynny o'r anifail a ystyrir yn fwyaf tebygol o gario clefyd fel Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol (BSE), e.e. llinyn cefn gwartheg). Hefyd, caiff anifeiliaid anwes, anifeiliaid sw a syrcas, ac anifeiliaid arbrofion eu dosbarthu fel deunyddiau Categori 1, a hynny oherwydd y lefelau uchel o weddillion a chyffuriau milfeddygol maent yn debygol o'u cynnwys a chan y gall fod yn anodd cael diagnosis digonol o'r union achos a arweiniodd at farwolaeth anifeiliaid egsotig. Gwyddys fod llawer yn cario Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy ac efallai eu bod yn cario clefydau eraill. Yn yr un modd, efallai y caiff anifeiliaid gwyllt eu dosbarthu fel deunyddiau Categori 1 os credir eu bod yn cario clefyd y gellid ei drosglwyddo i bobl neu anifeiliaid. Hefyd, mae gwastraff arlwyo sy'n deillio o gludiant rhyngwladol (h.y. gwastraff arlwyo sydd wedi dod o'r tu allan i'r UE) yn ddeunydd Categori 1.

### (b) Deunyddiau Categori 2

Mae deunyddiau Categori 2 hefyd yn ddeunyddiau risg uchel, a chânt eu diffinio yn Erthygl 9. Mae deunyddiau Categori 2 yn cynnwys stoc drig, tail a chynnwys y llwybr treulio. Ymhellach, Categori 2 yw'r statws diofyn ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid na chânt eu diffinio yn Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 naill ai fel deunyddiau Categori 1 neu ddeunyddiau Categori 3.

### (c) Deunyddiau Categori 3

Mae Erthygl 10 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 yn diffinio sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 3. Deunyddiau risg isel yw deunyddiau Categori 3. Mae deunyddiau Categori 3 yn cynnwys rhannau o anifeiliaid y penderfynwyd mewn lladd-dai eu bod yn addas i'w bwyta gan bobl, ond na fwriedir iddynt gael eu bwyta gan bobl, naill ai gan nad ydynt yn rhannau o anifeiliaid a fwytawn fel arfer (crwyn, blew, plu, esgyrn ac ati) neu oherwydd rhesymau masnachol. Mae deunyddiau Categori 3 hefyd yn cynnwys hen fwyd (gwastraff sydd wedi deillio o ffatrïoedd bwyd a safleoedd manwerthu, fel siopau cig ac archfarchnadoedd).

Mae gwastraff arlwyo, yn cynnwys gwastraff cegin domestig, yn ddeunydd Categori 3 – er, dim ond mewn rhai sefyllfaoedd y daw o fewn cwmpas y Rheoliadau, er mwyn ei

atal rhag cael ei fwydo i dda byw (rhywbeth a gaiff ei wahardd dan y Rheoliad), neu pan fwriedir iddo gael ei gompostio neu ei dreulio’n anaerobig.

## 9. Cyfyngu ar ddefnydd

Mae Erthygl 11 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 yn pennu cyfyngiadau’n ymwneud â bwydo sgil-gynhyrchion anifeiliaid, ac mae’n gwahardd ailgylchu o fewn rhywogaethau (bwydo deunydd sydd wedi deillio o rywogaeth i greadur o’r un rhywogaeth) a bwydo gwastraff arlwyo i anifeiliaid a ffermir.

Ymhellach, yn achos anifeiliaid a ffermir mae Erthygl 11 yn gwahardd yr arfer o’u bwydo â phorfa oddi ar dir y taenwyd gwrteithiau organig neu wellhawyr pridd arno, oni bai y cadwyd at gyfyngiadau pori. Yng Nghymru, mae’r gwaharddiad pori’n 8 wythnos ar gyfer moch ac yn 3 wythnos ar gyfer anifeiliaid eraill a ffermir.

## 10. Gwaredu a defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid

### (a) Gwaredu a defnyddio deunyddiau Categori 1

Mae Erthygl 12 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 yn pennu llwybrau gwaredu ar gyfer deunyddiau Categori 1. Gan mai dyma’r deunyddiau uchaf eu risg, yn gyffredinol rhaid i’r deunyddiau hyn gael eu dinistrio trwy eu llosgi, neu drwy eu rendro ac yna eu llosgi. Dyma’r unig opsiynau ar gyfer deunyddiau a gaiff eu hamau o fod ag Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy. Caniateir i ddeunyddiau Categori 1 eraill gael eu rendro dan bwysedd a’u gwaredu mewn safle tirlenwi awdurdodedig.

Gellir gwaredu gwastraff arlwyo rhyngwladol yn uniongyrchol mewn safle tirlenwi awdurdodedig.

Mewn egwyddor, mae’r Rheoliad yn caniatáu i ddeunyddiau Categori 1 gael eu defnyddio fel tanwydd hylosgi – er, nid yw’r Comisiwn Ewropeaidd wedi llunio rheolau ar gyfer hyn eto.

Ymhellach, gellir defnyddio deunyddiau Categori 1 ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion deilliedig fel y nodir yn y Rheoliad, fel dyfeisiadau meddygol.

### (b) Gwaredu a defnyddio deunyddiau Categori 2

Mae Erthygl 13 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 yn pennu’r llwybrau gwaredu ar gyfer deunyddiau Categori 2. Caiff yr opsiynau sylfaenol o’u llosgi, a’u rendro ac yna eu llosgi, eu caniatáu, fel ar gyfer deunyddiau Categori 1. Ymhellach, gellir defnyddio dulliau rendro dan bwysedd ar gyfer deunyddiau Categori 2 i gyd a’u gwaredu mewn safle tirlenwi awdurdodedig. Rhagwelir y bydd eu defnyddio fel tanwydd hylosgi yn cael ei ganiatáu yn y Rheoliad ar ôl i’r Comisiwn lunio rheolau ar gyfer hyn. Hefyd, gellir defnyddio deunyddiau Categori 2 ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion deilliedig fel y nodir yn y Rheoliad, fel dyfeisiadau meddygol.

Fodd bynnag, gellir defnyddio deunyddiau Categori 2 mewn dulliau eraill nad ydynt yn berthnasol i ddeunyddiau Categori 1. Gellir defnyddio dulliau rendro dan bwysedd ar gyfer deunyddiau Categori 2, a’u defnyddio wedyn i gynhyrchu gwrteithiau organig a gwellhawyr pridd. Ymhellach, gellir defnyddio dulliau rendro dan bwysedd a’u defnyddio wedyn mewn safleoedd compostio neu dreulio anaerobig cymeradwy.

Gellir taenu nifer cyfyngedig iawn o ddeunyddiau Categori 2 (tail, cynnwys y llwybr treulio, llaeth a chynhyrchion seiliedig ar laeth a llaeth tor) yn uniongyrchol ar y tir heb

eu prosesu, cyn belled na cheir unrhyw risg o drosglwyddo clefyd. Y rheswm wrth wraidd dynodi'r deunyddiau hyn yn ddeunyddiau Categori 2 yw er mwyn sicrhau mesurau rheoli digonol yn ystod achosion o glefydau difrifol ymhlith anifeiliaid, fel Clwy'r Traed a'r Genau.

Ymhellach, ceir opsiwn ar gyfer silweirio pysgod Categori 2 dan reolau cenedlaethol. Fodd bynnag, ni cheir rheolau cytunedig ar gyfer caniatáu hyn yn y DU ar hyn o bryd.

**(c) Gwaredu a defnyddio deunyddiau Categori 3**

Mae Erthygl 14 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 yn pennu llwybrau defnyddio a gwaredu ar gyfer deunyddiau Categori 3. Gan eu bod yn ddeunyddiau risg isel, ceir mwy o opsiynau o lawer ar gyfer defnyddio a gwaredu deunyddiau Categori 3 o'u cymharu â deunyddiau risg uwch.

Fel gyda deunyddiau Categori 1 a Chategori 2, gellir llosgi deunyddiau Categori 3, neu eu rendro ac yna eu llosgi. Ymhellach, gellir rendro deunyddiau Categori 3 a'u gwaredu wedyn mewn safle tirlenwi awdurdodedig (yn wahanol i ddeunyddiau mewn categori uwch, nid oes yn rhaid eu rendro dan bwysedd). Rhagwelir y gellir eu defnyddio fel tanwydd hylosgi dan y Rheoliad, ar ôl i'r Comisiwn lunio rheolau ar gyfer hyn. Hefyd, gellir defnyddio deunyddiau Categori 3 ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion deilliedig fel y nodir yn y Rheoliad, fel dyfeisiadau meddygol.

Gellir rendro deunyddiau Categori 3 ar gyfer cynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes a gwrteithiau organig neu wellhawyr pridd. Hefyd, gellir defnyddio deunyddiau Categori 3 sydd wedi'u rendro i gynhyrchu bwydydd anifeiliaid – er, mae cyfyngiadau'n ymwneud ag Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy mewn perthynas â bwydo protein anifeiliaid wedi'i brosesu yn cyfyngu'n arw ar hyn.

Gellir defnyddio deunyddiau Categori 3 yn uniongyrchol mewn safleoedd compostio neu dreulio anaerobig cymeradwy, ac wrth gynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes amrwd.

Gellir taenu rhai deunyddiau Categori 3 (llaeth amrwd, llaeth tor a chynhyrchion sydd wedi deillio o'r rhain) yn uniongyrchol ar y tir, cyn belled na cheir risg o drosglwyddo clefyd. Gellir taenu cregyn pysgod cregyn a phlisg wyau ar y tir yn unol â rheolau cenedlaethol.

Ymhellach, ceir opsiwn ar gyfer silweirio pysgod Categori 2 dan reolau cenedlaethol. Fodd bynnag, ni cheir rheolau cytunedig ar gyfer caniatáu hyn yn y DU ar hyn o bryd.

## 11. Gofynion o ran casglu ac adnabod mewn perthynas â chategori a chludo

Mae Erthygl 21 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 yn pennu'r gofynion ar gyfer casglu ac adnabod sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Caiff rheolau gweithredu manwl eu cynnwys yn Atodiad VIII Rheoliad (CE) rhif 142/2011.

Rhaid casglu, adnabod a gwaredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid heb oedi'n ormodol, er mwyn atal risgiau rhag codi mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid. Bydd 'heb oedi'n ormodol' yn amrywio o achos i achos, yn dibynnu ar y mathau o sgil-gynhyrchion anifeiliaid sydd dan sylw; er enghraifft, efallai y bydd ffermwr yn trefnu i'w stoc drig gael ei chasglu bob ychydig ddiwrnodau, ac efallai y bydd siop manwerthu yn dychwelyd bwydydd sydd wedi pasio'u dyddiad yn wythnosol. Yn y ddwy enghraifft hyn, rhaid i'r sgil-gynhyrchion anifeiliaid gael eu storio'n briodol er mwyn osgoi risg i

iechyd anifeiliaid ac iechyd pobl. Rhaid i sgil-gynhyrchion anifeiliaid gael eu cludo mewn deunyddiau pacio newydd wedi'u selio, neu mewn cerbydau neu gynhwysyddion gorchuddiedig na fyddant yn gollwng, yn unol ag Adran I Atodiad VIII Rheoliad (CE) 142/2011. Rhaid i'r cynwysyddion fod wedi'u dynodi ar gyfer categorïau penodol o sgil-gynhyrchion anifeiliaid; a phan na fyddant wedi'u dynodi yn y fath fodd, rhaid iddynt gael eu glanhau a'u diheintio bob tro ar ôl eu defnyddio, er mwyn atal croes-halogi.

Rhaid i sgil-gynhyrchion anifeiliaid gael eu hadnabod yn unol â Phennod II Atodiad VIII Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Rhaid iddynt gael eu casglu a'u hadnabod yn ôl categori. Pan geir cymysgedd o sgil-gynhyrchion anifeiliaid o wahanol gategorïau, rhaid i'r holl sgil-gynhyrchion gael eu trin fel y deunyddiau risg uwch neu risg uchaf e.e. os caiff deunyddiau Categori 3 eu cymysgu â deunyddiau Categori 2, rhaid gwaredu'r holl ddeunyddiau fel pe baent yn ddeunyddiau Categori 2.

Rhaid labelu deunyddiau Categori 3 fel deunyddiau 'nad ydynt i'w bwyta gan bobl'. Rhaid labelu deunyddiau Categori 2 fel deunyddiau 'nad ydynt i'w bwyta gan anifeiliaid' (oni bai y bwriedir iddynt gael eu defnyddio i'r perwyl hwnnw dan y rhanddirymiad yn Erthygl 18(1) Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 ar gyfer eu bwydo i anifeiliaid fel anifeiliaid sw neu syrcas). Rhaid i ddeunyddiau Categori 1 gael eu labelu fel deunyddiau 'ar gyfer eu gwaredu'n unig'. Efallai y bydd angen labelu mwy ar fathau penodol o sgil-gynhyrchion anifeiliaid, fel colagen, cynhyrchion gwaed neu fwyd anifeiliaid anwes amrwd, yn unol â Phennod II Atodiad VIII Rheoliad (CE) rhif 142/2011.

Wrth gludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid, rhaid cael dogfen fasnachol neu, mewn rhai amgylchiadau, dystysgrif iechyd, yn unol â Phennod III Atodiad VIII. Rhaid i'r ddogfen fasnachol gynnwys y dyddiad y cafodd y deunydd ei gludo oddi ar y safle; disgrifiad o'r deunydd; swm y deunydd, ar ffurf pwysau neu faint; tarddle'r deunydd; enw a chyfeiriad y cludwr; enw a chyfeiriad y derbynnydd a'i rif cymeradwyo neu ei rif cofrestru os yw hynny'n briodol; a rhif cymeradwyo neu rif cofrestru'r safle y tarddodd ohono os yw hynny'n briodol.

Ceir dogfen fasnachol enghreifftiol yn Atodiad VIII. Gellir defnyddio hon, ond nid yw hynny'n orfodol cyn belled â bod yr holl wybodaeth yn cael ei chofnodi. Mae'r ffurflen ragnodedig yn ofynnol ar gyfer masnachu mewn sgil-gynhyrchion anifeiliaid rhwng gwahanol Aelod-wladwriaethau.

Rhaid cadw cofnodion a dogfennau masnachol cysylltiedig neu dystysgrifau iechyd am o leiaf ddwy flynedd.

## 12. Cofrestru a chymeradwyo

Yn gyffredinol, os ydych yn safle sy'n trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid, byddwch angen cael cymeradwyaeth neu bydd angen i chi gofrestru.

### (a) Cofrestru

Rhaid cofrestru yn unol ag Erthygl 23 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009. Rhaid cydymffurfio â'r gofynion yn Erthygl 20 ac Atodiad IX Pennod IV Rheoliad (CE) rhif 142/2011.

Fel arfer, dim ond ar gyfer gweithrediadau risg isel, fel safleoedd technegol, mae angen cofrestru. Efallai y byddwch angen cofrestru hefyd os ydych yn cludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn fasnachol. Bydd modd i'ch swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol roi gwybod i chi a yw eich gweithrediad neu eich sefydliad angen cofrestru i drin sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Yn achos safleoedd bwyd sydd eisoes wedi'u cofrestru neu eu cymeradwyo dan ddeddfwriaeth hylendid bwyd (Rheoliad (CE) rhif 852/2004 neu Reoliad (CE) rhif 853/2004), ni fydd angen iddynt gofrestru ymhellach gyda swyddfa Iechyd Anifeiliaid.

Mae cofrestru'n golygu rhoi gwybod i swyddfa Iechyd Anifeiliaid beth yw natur eich gweithrediad, beth yw categori'r sgil-gynhyrchion anifeiliaid y byddwch yn eu defnyddio, a'r hyn y byddwch yn ei wneud gyda nhw.

Bydd safleoedd a gweithrediadau cofrestredig yn cael eu hychwanegu at gronfa ddata o safleoedd a gweithrediadau cofrestredig. Bydd y gronfa ddata hon ar gael i'r cyhoedd.

### (b) Cymeradwyo

Rhaid i safleoedd gael eu cymeradwyo'n unol ag Erthygl 24 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009.

Fel arfer, bydd safleoedd sydd wedi cael cymeradwyaeth yn derbyn sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar gyfer unrhyw ddefnydd a nodir yn Erthyglau 12-14 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009. Os yw eich gweithrediad eisoes wedi cael cymeradwyaeth dan ddeddfwriaeth hylendid bwyd, ni fyddwch angen cymeradwyaeth dan ddeddfwriaeth sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Bydd modd i'ch swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol roi gwybod i chi a yw eich gweithrediad neu eich sefydliad angen cymeradwyaeth i drin sgil-gynhyrchion anifeiliaid.

Isod, nodir y prif fathau o safleoedd mae arnynt angen cymeradwyaeth a cheir amlinelliad byr o'r gofynion mae'n ofynnol iddynt eu dilyn.

## 13. Mathau o safleoedd sy'n trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid

### (a) Safleoedd Rendro

Gall safleoedd rendro gymryd pob categori o sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Rhaid iddynt gael eu cymeradwyo'n unol ag Erthygl 24 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 a rhaid i'r gweithredwyr fodloni'r gofynion hylendid cyffredinol yn Erthygl 25. Hefyd, rhaid iddynt fodloni'r safonau prosesu a'r gofynion o safbwynt safleoedd a bennir yn Erthygl 8, Erthygl 9 ac Atodiad IV Rheoliad (CE) rhif 7066/2010. Mae'r rhain yn cynnwys yr amodau cyffredinol mewn perthynas â safleoedd ym Mhennod I Adran 1; y gofynion mewn perthynas â thrin dŵr gwastraff ym Mhennod I Adran 2; y gofynion gwahanu ar gyfer safleoedd Categori 1 a Chategori 2 yn unol â Phennod I Adran 3; a'r angen i safleoedd Categori 3 gydymffurfio â'r gofynion prosesu ym Mhennod I Adran 4. Ymhellach, ym Mhennod II ceir gofynion ychwanegol yn ymwneud â hylendid a phrosesu, gyda gofynion prosesu penodol ar gyfer deunyddiau Categorïau 1, 2 a 3. Rhaid i safleoedd fod wedi'u cymeradwyo ar gyfer defnyddio un o'r dulliau prosesu 1 i 7 a bennir ym Mhennod III, fel y bo'n briodol.

Gellir dod o hyd i ganllawiau Iechyd Anifeiliaid ar rendro, bwyd anifeiliaid anwes a bwydydd anifeiliaid, a gwrteithiau organig a gwellhawyr pridd yma.

## (b) Llosgyddion

Caiff y rhan fwyaf o losgyddion eu cymeradwyo dan y Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff (Cyfarwyddeb 2000/76/EC) a byddant yn cael eu rheoli gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu'r Awdurdod Lleol, yn dibynnu ar y trwybwn (faint a losgir fesul awr).

Caiff llosgyddion sy'n llosgi carcasau anifeiliaid yn unig a dim byd arall (fel llosgyddion ar ffermydd ar gyfer gwaredu stoc drig) eu heithrio rhag y Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff, ac yn hytrach cânt eu rheoleiddio gan Reoliad (CE) rhif 1069/2009. Rhaid i losgyddion gael eu cymeradwyo'n unol ag Erthygl 24 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009.

Rhaid i bob safle llosgi gydymffurfio ag Erthygl 6 ac Atodiad III Rheoliad (CE) rhif 142/2011, yn enwedig yr amodau hylendid a bennir ym Mhennod I Adran 1, yr amodau gweithredu ym Mhennod I Adran 2, y gofynion gwaredu gweddillion ym Mhennod I Adran 3, y gofynion mesur tymheredd ym Mhennod I Adran IV a'r gofynion ar gyfer delio ag amodau gweithredu annormal ym Mhennod I Adran 5. Ymhellach, rhaid i losgyddion maint mawr fodloni'r amodau gweithredu penodol ym Mhennod II Adran 1 a'r gofynion gollwng dŵr ym Mhennod II Adran 2, a rhaid i losgyddion maint bychan fodloni gofynion Pennod III.

Gellir dod o hyd i ganllawiau Iechyd Anifeiliaid ar losgi: yma

## (c) Safleoedd Compostio a Threulio Anaerobig (Bio-nwy)

Dim ond sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 3, sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 2 os ydynt wedi'u rendro dan bwysedd, a rhai deunyddiau Categori 2 a nodir (fel tail, cynnwys y llwybr treulio, llaeth a chynhyrchion llaeth) y gall safleoedd compostio a threulio anaerobig (bio-nwy) eu trin. Rhaid i safleoedd compostio gynhyrchu cynnyrch gorffenedig a gaiff ei gydnabod gan Asiantaeth yr Amgylchedd, a rhaid iddynt allu dangos bod y rhan fwyaf o'r gwres yn ystod y driniaeth yn cael ei gynhyrchu trwy weithgareddau biolegol (h.y. ni all gweithredwyr 'goginio' y deunydd dan sylw er mwyn bodloni'r safonau tymheredd). Rhaid i dreulio anaerobig ddigwydd fel y gellir cynhyrchu a chasglu bio-nwy.

Rhaid i safleoedd compostio a bio-nwy gael eu cymeradwyo'n unol ag Erthygl 24 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009. Rhaid i'r safleoedd gydymffurfio â gofynion Erthygl 10 ac Atodiad V Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys gofynion cyffredinol yn ymwneud â'r safle ym Mhennod I, gofynion hylendid ym Mhennod II, paramedrau trawsnewid ym Mhennod III Adran 1 a'r gofynion samplu microbiolegol ym Mhennod III Adran 3.

Gellir dod o hyd i ganllawiau Iechyd Anifeiliaid ar gompostio a bio-nwy yma

## (d) Safleoedd Bwyd Anifeiliaid Anwes

Dim ond rhai sgil-gynhyrchion anifeiliaid Categori 3 y gall safleoedd bwyd anifeiliaid anwes eu defnyddio.

Rhaid i safleoedd sy'n gweithgynhyrchu bwyd anifeiliaid anwes gael eu cymeradwyo'n unol ag Erthygl 24 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 ac Erthygl 19 Rheoliad (CE) rhif

142/2011. Rhaid rhoi bwyd anifeiliaid anwes ar y farchnad yn unol ag Erthygl 35 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009.

Rhaid i'r safleoedd fodloni gofynion Atodiad IX Pennod I Rheoliad (CE) rhif 142/2011 a'r gofynion cyffredinol a bennir yn Atodiad XIII Pennod I. Caiff gofynion penodol yn ymwneud â bwyd anifeiliaid anwes amrwd, bwyd anifeiliaid anwes wedi'i brosesu a bwyd cnoi i gŵn, yn cynnwys pwyntiau terfyn (lle na chaiff bwyd anifeiliaid anwes ei reoli ar ôl hynny gan y Rheoliadau), eu pennu yn Atodiad XIII Pennod II. Mae Atodiad XIII Pennod III yn pennu'r rheolau ar gyfer cyflasu perfedd wrth weithgynhyrchu bwyd anifeiliaid.

Ni chaiff bwyd anifeiliaid anwes amrwd o siopau manwerthu ar gyfer cyflenwi'r cwsmer yn y fan a'r lle, ac sydd wedi deillio o anifeiliaid a laddwyd ar y fferm ar gyfer treuliant domestig y ffermwr a'i deulu agosaf, ei gynnwys (Erthygl 2.2(i) a (j) Rheoliad (CE) rhif 1069/2009).

Gellir dod o hyd i ganllawiau Iechyd Anifeiliaid ar safleoedd bwyd anifeiliaid anwes yma

**(e)** Rhaid i **safleoedd sy'n trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar ôl iddynt gael eu casglu** (a elwid o'r blaen yn Safleoedd Canolradd) gael eu cymeradwyo'n unol ag Erthygl 24 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 ac Erthygl 19 Rheoliad (CE) rhif 142/2011, a rhaid i'r gweithredwyr fodloni'r gofynion hylendid cyffredinol yn Erthygl 25 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009. Rhaid i safleoedd canolradd gydymffurfio â'r gofynion cyffredinol yn Atodiad IX Pennod II Rheoliad (CE) rhif 142/2011 a'r gofynion hylendid yn Atodiad IX Pennod II Adran 2.

**(f) Safleoedd Storio**

Rhaid i safleoedd storio gael eu cymeradwyo'n unol ag Erthygl 24 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 ac Erthygl 19 Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Rhaid i safleoedd storio sy'n derbyn cynhyrchion amrwd gydymffurfio â'r gofynion cyffredinol ym Mhennod II Atodiad IX. Rhaid i safleoedd storio sy'n derbyn cynhyrchion deilliedig gydymffurfio â Phennod III Atodiad IX.

**(g) Safleoedd Technegol**

Rhaid i safleoedd technegol gael eu cofrestru'n unol ag Erthygl 23 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009. Rhaid i safleoedd technegol gwrdd â'r amodau ar gyfer gweithredwyr cofrestredig yn Erthygl 20 a Phennod IV Atodiad IX Rheoliad (CE) rhif 142/2011.

**(h) Safleoedd sy'n defnyddio Dulliau Amgen**

Wrth gyfeirio at ddulliau amgen o drin sgil-gynhyrchion anifeiliaid, yr hyn a olygir yw technolegau neu ddulliau newydd o waredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Cafodd nifer ohonynt, fel biodiesel a hydrolysis alcalin, eu cyflwyno'n wreiddiol dan ddeddfwriaeth flaenorol. Mae'r Rheoliad hefyd yn darparu ar gyfer cyflwyno technolegau neu ddulliau newydd yn y dyfodol gyda rheolau ar gyfer awdurdodi gweithrediadau o'r fath.

Rhaid i ddulliau amgen gael eu cymeradwyo'n unol ag Erthygl 24 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009. Caiff dulliau amgen sydd i'w cael ar hyn o bryd ar gyfer trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid eu pennu yn Atodiad IV Pennod IV Adran 1 Rheoliad (CE) rhif 142/2011.

Rhaid i geisiadau i awdurdodi dulliau amgen gael eu trin yn unol ag Erthygl 20 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 ac Erthygl 16 ac Atodiad VII Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Mae'n

ofynnol cael gwybodaeth fanwl am y dull, lle dangosir diogelwch y broses. Mae Asiantaeth Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) yn ystyried yr wybodaeth ac yn cynghori'r UE ynghylch pa mor addas yw'r dull i gael ei gymeradwyo.

## 14. Rhanddirymiadau ('llacio rheolau')

Mae Erthyglau 16, 17, 18 ac 19 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 yn galluogi Aelod-wladwriaethau i ganiatáu 'llacio rheolau' y fframwaith sylfaenol sy'n berthnasol i fesurau rheoli sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn rhai meysydd penodol. Mae'r arweiniad canlynol yn trafod y rhanddirymiadau sydd ar gael i Aelod-wladwriaethau, pa un a yw'r DU yn bwriadu manteisio arnynt, pa fesurau rheoli y byddem yn eu rhoi ar waith, a phan nad ydym yn bwriadu manteisio arnynt, y rhesymau dros beidio â gwneud hynny.

### (a) Rhanddirymiad ar gyfer caniatáu defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn ymchwil ac at ddibenion penodol eraill: Erthygl 16(b) ac Erthygl 17

Mae'r DU yn bwriadu manteisio ar y rhanddirymiad hwn, ac efallai y bydd yn awdurdodi defnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn sefydliadau ymchwil ac at ddibenion penodol fel arddangosfeydd, gweithgareddau artistig ac at ddibenion diagnostig neu addysgol, dan amodau lle caiff risgiau i iechyd y cyhoedd ac i iechyd anifeiliaid eu rheoli.

Caiff gofynion yn ymwneud â samplau ar gyfer ymchwil a dibenion eraill (ac eithrio ar gyfer defnyddio deunyddiau risg isel at ddibenion addysgol, lle mae dyletswydd gofal gyffredinol i sicrhau defnydd a gwaredu diogel mewn grym) eu pennu yn Erthygl 11 ac Atodiad VI Pennod I Adran 1 Rheoliad rhif 142/2011. Caiff gofynion o ran cadw cofnodion eu pennu yn Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 1.

Ac eithrio ar gyfer defnyddio deunyddiau risg isel at ddibenion addysgol, os dymunwch ddefnyddio sgil-gynhyrchion anifeiliaid at y dibenion hyn, bydd angen i chi fod wedi cofrestru. Cysylltwch â'ch swyddfa Iechyd Anifeiliaid i gael rhagor o wybodaeth.

Rhaid parhau i waredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn unol â'r Rheoliad.

### (b) Rhanddirymiad ar gyfer caniatáu bwydo deunyddiau Categori 2 a Chategori 3 i anifeiliaid amrywiol: Erthygl 16(c) ac Erthygl 18(1)

Mae'r Rheoliad yn caniatáu rhanddirymiadau ar gyfer bwydo deunyddiau Categori 2 a Chategori 3 i anifeiliaid amrywiol:

Anifeiliaid sw

Anifeiliaid syrcas
Ymlusgiaid/adar ysglyfaethus ac eithrio anifeiliaid sw neu syrcas
Anifeiliaid ffwr
Anifeiliaid gwyllt
Cŵn o gynelau neu heidiau cŵn cydnabyddedig
Cŵn a chathod mewn llochesau
Cynrhon a phryfed genwair ar gyfer abwyd pysgota

Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddirymiadau hyn i'w cael eisoes dan ddeddfwriaeth flaenorol. Nid yw'r DU yn bwriadu defnyddio'r rhanddirymiad ar gyfer anifeiliaid ffwr,

oherwydd mae ffermio anifeiliaid ffwr wedi'i wahardd yn y DU. Yng Nghymru, dim ond i fwydo adar gwyllt mewn gerddi domestig y bydd y rhanddirymiad ar gyfer bwydo anifeiliaid gwyllt yn berthnasol. Ein bwriad yw darparu ar gyfer bwydo cŵn a chathod mewn llochesau – nid oedd y rhanddirymiad hwn ar gael dan ddeddfwriaeth flaenorol. Yn yr un modd ag ar gyfer bwydo mewn cynelau hela a heidiau cŵn cydnabyddedig, byddai hyn angen cymeradwyaeth gan swyddfa Iechyd Anifeiliaid. Mae'r rhanddirymiad ar gyfer defnydd fel abwyd wedi'i ymestyn i gynnwys pryfed genwair yn ogystal â chynrhon.

Yn y rhan fwyaf o achosion, os ydych yn dymuno defnyddio unrhyw un o'r rhanddirymiadau hyn, byddwch angen caniatâd i wneud hynny gan swyddfa Iechyd Anifeiliaid. Rhaid mynd ati i fwydo'n unol â'r amodau yn Erthygl 13 ac Atodiad VI Pennod II Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Nodir y gofynion o ran cadw cofnodion yn Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 1 ac Adran 2.

Gellir dod o hyd i ganllawiau Iechyd Anifeiliaid ar fwydo deunyddiau Categori 2 a Chategori 3 yma

**(c) Rhanddirymiad ar gyfer caniatáu bwydo deunyddiau Categori 1 i anifeiliaid sw ac adar corffysol: Erthygl 16(c) ac Erthygl 18(2)**

Mae'r DU yn bwriadu manteisio ar y rhanddirymiad hwn mewn perthynas ag anifeiliaid sw a chaniatáu i garcasau anifeiliaid sw gael eu bwydo i anifeiliaid sw eraill mewn rhai amgylchiadau pan na cheir unrhyw risg o drosglwyddo clefyd a phan na fydd lefel y gweddillion milfeddygol yn y carcasau'n arwain at risg i iechyd anifeiliaid. Rhaid gwneud hyn yn unol ag Erthygl 14 ac Atodiad VI Pennod II Adran 4 Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Caiff gofynion o ran cadw cofnodion eu pennu yn Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 1 ac Adran 2.

**(d) Rhanddirymiad ar gyfer caniatáu i geffylau ac anifeiliaid anwes marw gael eu claddu: Erthygl 16(d) ac Erthygl 19(1)(a)**

Mae Cymru yn bwriadu manteisio ar y rhanddirymiad hwn a bydd claddu anifeiliaid anwes yn parhau i gael ei ganiatáu. O'r blaen, gellid claddu ceffylau os mai anifeiliaid anwes oeddynt, ond nid mewn amgylchiadau eraill. Yn awr, mae Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 yn ymestyn hyn ac mae Erthygl 19(1)(a) yn darparu rhanddirymiad ar gyfer claddu holl aelodau teulu'r ceffyl (equidae). Oherwydd pryderon yn ymwneud â chladdu equidae yn annetholus, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai perchnogion equidae marw yn gyntaf ystyried gwaredu'r carcas trwy'r llwybr arferol ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Fel arall, gall perchnogion ystyried claddu'r anifail, yn amodol ar unrhyw fesurau rheoli gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu'r Awdurdod Lleol. Dylai perchnogion fod yn ymwybodol hefyd o'r costau sydd ynghlwm wrth gladdu.

Dylid mynd ati i gladdu yn unol ag Erthygl 15 ac Atodiad VI Pennod III Adran 1 Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 6 yn pennu'r gofynion o ran cadw cofnodion.

**(e) Rhanddirymiad ar gyfer caniatáu claddu/llosgi neu waredu trwy fodd arall mewn ardaloedd anghysbell ddeunyddiau Categori 1 (e.e. cyrff cyfan anifeiliaid marw sy'n cynnwys Deunydd Risg Penodol), deunyddiau Categori 2 a**

**deunyddiau Categori 3: Erthygl 16(d) ac Erthygl 19(1)(b)**
Mae'r DU yn bwriadu manteisio ar y rhanddirymiad hwn. O fewn ein deddfwriaeth ddomestig gellir claddu neu losgi anifeiliaid marw, fel stoc drig, mewn ardaloedd a ddynodir yn ardaloedd anghysbell. Yr ardaloedd anghysbell yng Nghymru yw Ynys Dewi, Ynys Bŷr, Ynys Enlli ac Ynys Echni. Dylid gwaredu'r anifeiliaid yn unol ag Erthygl 15 ac Atodiad VI Pennod III Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 6 yn pennu'r gofynion o ran cadw cofnodion.

**(f) Rhanddirymiad ar gyfer caniatáu claddu/llosgi neu waredu trwy fodd arall stoc drig pan fo mynediad i bob pwrpas yn amhosibl ar gyfer deunyddiau Categori 1 (e.e. cyrff cyfan anifeiliaid marw sy'n cynnwys Deunydd Risg Penodol), deunyddiau Categori 2 a deunyddiau Categori 3: Erthygl 16(d) ac Erthygl 19(1)(c)**
Mae'r DU yn bwriadu manteisio ar y rhanddirymiad hwn. Bydd claddu/llosgi neu waredu trwy fodd arall yn cael ei ganiatáu mewn perthynas â stoc drig pan fo mynediad i bob pwrpas yn amhosibl neu, oherwydd rhesymau daearyddol neu resymau'n ymwneud â'r hinsawdd neu oherwydd trychineb naturiol, pan fyddai mynediad yn bosibl dim ond mewn amgylchiadau a fyddai'n arwain at risg i iechyd a diogelwch y personél a fyddai'n casglu'r stoc, neu pan fyddai mynediad yn peri bod angen defnyddio dulliau casglu anghymesur. Bydd hyn yn cael ei gyfyngu i sefyllfaoedd anarferol, er enghraifft pan fo anifail wedi syrthio i lawr hafn neu glogwyn neu wedi mynd yn sownd mewn cors a phan na fyddai nôl y corff i'w waredu trwy ei rendro neu ei losgi yn bosibl. Dylid gwaredu'n unol ag Erthygl 15 ac Atodiad VI Pennod III Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 6 yn pennu'r gofynion o ran cadw cofnodion.

Gellir dod o hyd i ganllawiau Iechyd Anifeiliaid ar gladdu stoc drig yma

**(g) Rhanddirymiad ar gyfer caniatáu gwaredu rhywfaint bach o sgil-gynhyrchion Categori 3: Erthygl 16(d) ac Erthygl 19(1)(d)**
Mae'r DU yn bwriadu manteisio ar y rhanddirymiad hwn. Gellir gwaredu rhywfaint bach o hen fwyd (gwastraff siopau manwerthu a ffatrïoedd) mewn safleoedd tirlenwi. Bydd hyn yn cynyddu'r opsiynau gwaredu sydd ar gael i'r diwydiant ac mae ganddo'r potensial i leihau costau'n sylweddol. Rhaid mynd ati i waredu'n unol ag Atodiad VI Pennod IV Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 1 yn pennu'r gofynion o ran cadw cofnodion.

Caiff 'rhywfaint bach' ei ddiffinio fel hyd at 20kg o hen fwyd yr wythnos. Yr uchafswm wythnosol yw hwn, nid y cyfartaledd dros y flwyddyn.

**(h) Rhanddirymiad i ganiatáu i Aelod-wladwriaethau awdurdodi gwaredu deunyddiau Categori 1 trwy eu llosgi neu eu claddu ar y safle (ac eithrio dan Erthygl 8(a)(i)) yn ystod achos o glefyd hysbysadwy: Erthygl 16(d) ac Erthygl 19(1)(e)**
Mae'r DU yn bwriadu manteisio ar y rhanddirymiad hwn. Yn ystod achos o glefyd hysbysadwy, mewn rhai achosion efallai mai gwaredu stoc drig trwy losgi neu gladdu ar y safle yw'r opsiwn mwyaf synhwyrol, a gellir gwneud hyn os bydd swyddfa Iechyd Anifeiliaid wedi rhoi caniatâd. Roedd y rhanddirymiad hwn i'w gael eisoes mewn deddfwriaeth flaenorol.

Mae Atodiad VI, Pennod III, Adran I Rheoliad (CE) rhif 142/2011 yn pennu'r amodau

sy'n berthnasol i'r gwaredu. Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII, Pennod IV, Adran 6 yn pennu'r gofynion o ran cadw cofnodion.

**(i) Rhanddirymiad i ganiatáu i Aelod-wladwriaethau awdurdodi gwaredu sgil-gynhyrchion gwenyn a gwenyna trwy eu llosgi neu eu claddu ar y safle: Erthygl 16(d) ac Erthygl 19(f)**

Mae'r DU yn bwriadu manteisio ar y rhanddirymiad hwn. Bydd gwaredu sgil-gynhyrchion gwenyn a gwenyna ar y safle yn cael ei ganiatáu dan oruchwyliaeth Arolygydd yr Uned Wenyn Genedlaethol. Roedd y rhanddirymiad hwn i'w gael eisoes mewn deddfwriaeth flaenorol.

Mae Atodiad IX, Adran III, Pennod III y Rheoliad Gweithredu drafft yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau benderfynu ar amodau er mwyn sicrhau na fydd y llosgi na'r claddu'n rhoi iechyd pobl, iechyd anifeiliaid na'r amgylchedd mewn perygl. Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 6 yn pennu'r gofynion o ran cadw cofnodion.
Gellir dod o hyd i fanylion eich Arolygydd Gwenyn lleol yma

**(j) Rhanddirymiad i ganiatáu i sgil-gynhyrchion anifeiliaid gael eu gwaredu neu eu defnyddio'n unol â dulliau amgen: Erthygl 16(e)**

Mae'r DU yn bwriadu manteisio ar y rhanddirymiad hwn. Mae'r rhanddirymiad hwn yn caniatáu i ddulliau amgen o waredu sgil-gynhyrchion anifeiliaid gael eu defnyddio, felly ceir fframwaith ar gyfer cymeradwyo technolegau newydd a ddaw i'r amlwg. Mae'r rhanddirymiad hwn i'w gael eisoes mewn deddfwriaeth flaenorol. Mae'r drefn ar gyfer gwneud cais am gymeradwyaeth gan yr UE yn cael ei drafftio ar hyn o bryd mewn perthynas ag ynysu ar y fferm trwy ddefnyddio "bioleihawyr".

Rhaid i ddulliau amgen gael eu hawdurdodi'n ôl y drefn a bennir yn Erthygl 20. Caiff dulliau amgen sydd i'w cael eisoes eu pennu yn Atodiad IV Pennod IV Adran 2 Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 1 yn pennu'r gofynion o ran cadw cofnodion.

**(k) Rhanddirymiad i ganiatáu i ddeunyddiau Categori 2 a Chategori 3 gael eu defnyddio ar gyfer cymysgeddau biodynamig a daenir ar y tir: Erthygl 16(f)**

Mae'r DU yn bwriadu manteisio ar y rhanddirymiad hwn, cyn belled ag y caiff ei roi ar waith yn unol â Rheoliad (CE) rhif 834/2007 ar gynhyrchu organig a labelu cynhyrchion organig. Dull ffermio organig yw amaethyddiaeth fiodynamig lle rhoddir dull cyfannol o reoli'r fferm ar waith a lle caiff cymysgeddau sydd wedi deillio o sgil-gynhyrchion anifeiliaid eu defnyddio mewn gwrteithiau. Mae'r rhanddirymiad hwn yn caniatáu i sgil-gynhyrchion Categori 2 a Chategori 3 gael eu defnyddio mewn cymysgeddau biodynamig – gweler Erthygl 12(1)(c) Rheoliad (CE) rhif 834/2007.

**(l) Rhanddirymiad i ganiatáu i ddeunyddiau Categori 3 gael eu bwydo i anifeiliaid anwes: Erthygl 16(g). Ceir dwy elfen i'r rhanddirymiad hwn:**

1) **awdurdodi gweithgynhyrchwyr bwyd anifeiliaid anwes sy'n cyflenwi ymlaen gynhyrchion Categori 3 wedi'u prosesu**

Dan y Rheoliad blaenorol, dim ond “bwyd anifeiliaid anwes” a oedd wedi’i baratoi’n unol â gofynion y rheoliad (boed yn amrwd neu wedi’i brosesu) y gellid ei fwydo i anifeiliaid anwes. Mae’r rhanddirymiad yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau bennu amodau sy’n caniatáu i ddeunyddiau Categori 3 gael eu defnyddio i fwydo anifeiliaid anwes (yn hytrach na gofynion y rheoliad sy’n berthnasol i weithgynhyrchwyr cynhyrchion bwyd anifeiliaid amrwd ac wedi’i brosesu). Yn dilyn yr ymgynghoriad a’n dadansoddiad o’r Asesiadau Risg Milfeddygol, rydym wedi dod i’r casgliad fod y risgiau uwch posibl i iechyd pobl ac i iechyd anifeiliaid yn sgil methu â gwarantu diogelwch microbiolegol y deunyddiau bwydo yn drech nag unrhyw fuddion posibl, ac **na ddylem fanteisio ar y rhanddirymiad hwn.** Fe fyddai’r mesurau rheoli sy’n angenrheidiol i ymdrin â’r risgiau a nodwyd yn gyfwerth â’r broses gymeradwyo bresennol fel safle bwyd anifeiliaid anwes – sef rhywbeth y darperir ar ei gyfer eisoes yn y Rheoliadau.

**2) bwydo deunyddiau heb eu prosesu a deunyddiau Categori 3 i anifeiliaid anwes**

Gellir prynu bwyd anifeiliaid anwes amrwd mewn siopau cig lle mae’r deunydd dan sylw wedi’i drin fel cig o fath arall sydd i’w fwyta gan bobl. Er enghraifft, esgyrn y bydd y cigydd yn eu tynnu wrth baratoi darnau o gig sydd i’w bwyta gan bobl. Ni ellir prynu’r deunydd hwn i’w gyflenwi ymlaen.

Gellir dod o hyd i ganllawiau Iechyd Anifeiliaid ar fwyd anifeiliaid anwes yma

**(m) Rhanddirymiad i ganiatáu i ddeunyddiau Categori 2 a 3 sy’n deillio o ymyrraeth lawfeddygol gael eu gwaredu ar y fferm: Erthygl 16(h)**

Mae’r DU yn bwriadu manteisio ar y rhanddirymiad hwn, yn ddibynnol ar rai amodau. Gellir claddu deunyddiau sy’n deillio o dorri aelodau i ffwrdd (e.e. cynffonau) ac ysbaddu, a hefyd torion carnau. Fodd bynnag, nid ydym yn bwriadu i’r rhanddirymiad fod yn berthnasol i ffetysau na brychau, a rhaid gwaredu’r rhain yn unol â’r Rheoliad (eu hanfon i’w rendro neu eu llosgi).

## 15. Meysydd disgresiwn cenedlaethol

Ymhellach, mae Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau arfer disgresiwn mewn nifer o feysydd os dymunant wneud hynny. Mae’r adran hon yn trafod y gwahanol feysydd disgresiwn sydd ar gael a’r dull mae’r DU yn bwriadu ei roi ar waith.

**(a) Opsiwn lle mae’n ofynnol diheintio deunyddiau Categori 1 a Chategori 2 dan bwysedd cyn y gellir eu gwaredu fel gwastraff trwy eu llosgi neu eu hadfer/gwaredu trwy eu cyd-losgi: Erthygl 12(a) a (b) ac Erthygl 13(a) a (b)**

Nid yw’r DU yn bwriadu rhoi’r mesur hwn ar waith. Nid oedd hyn yn ofynnol cyn Rheoliad (CE) 1069/2009 ac ni welwn unrhyw angen i gyfyngu ar y diwydiant trwy fynnu bod y deunydd hwn yn cael ei ddiheintio dan bwysedd.

**(b) Opsiwn i ganiatáu i rai deunyddiau Categori 2 gael eu compostio neu eu trawsnewid yn fio-nwy: Erthygl 13(e)(ii)**

Mae’r DU yn bwriadu manteisio ar y mesur hwn. Mae deunyddiau Categori 2 y caniateir eu compostio neu eu treulio’n anaerobig yn cynnwys tail, cynnwys y llwybr treulio, llaeth, cynhyrchion seiliedig ar laeth a llaeth tor. Roedd modd anfon y rhan fwyaf o’r deunyddiau hyn i gael eu compostio neu eu treulio’n anaerobig dan

ddeddfwriaeth flaenorol, ond mae'r rhestr bellach wedi'i hymestyn i gynnwys cynhyrchion seiliedig ar laeth, wyau a chynhyrchion wyau. Bydd y DU yn caniatáu'r defnydd hwn cyn belled â'n bod yn fodlon na cheir risg o ledaenu clefydau trosglwyddadwy difrifol. Rhaid i safleoedd compostio a bio-nwy gael eu cymeradwyo'n unol ag Erthygl 24 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009. Rhaid i safleoedd gydymffurfio â gofynion Erthygl 10 ac Atodiad V Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 1 yn pennu'r gofynion o ran cadw cofnodion.

**(c) Opsiwn i ganiatáu i ddeunyddiau Categori 2 a Chategori 3 gael eu taenu ar y tir heb iddynt gael eu prosesu: Erthygl 13(f) ac Erthygl 14(l)**

Mae'r DU yn bwriadu manteisio ar y mesurau hyn. Gellir taenu rhai deunyddiau'n uniongyrchol ar y tir heb iddynt gael eu trin. Y deunyddiau hyn yw tail, cynnwys y llwybr treulio wedi'i wahanu oddi wrth y llwybr treulio, llaeth, cynhyrchion seiliedig ar laeth a llaeth tor. Roedd deddfwriaeth flaenorol eisoes yn caniatáu i'r rhan fwyaf o'r deunyddiau hyn gael eu taenu ar y tir heb iddynt fod wedi'u trin, ond mae'r rhestr hon bellach wedi'i hymestyn i gynnwys cynhyrchion seiliedig ar laeth. Gellir taenu'r rhain ar y tir fel gwrteithiau organig neu wellhawyr pridd, ac o'r herwydd bydd gwaharddiad pori mewn grym (ac eithrio ar gyfer taenu tail a chynnwys y llwybr treulio). Mae'r gwaharddiad pori'n gwahardd da byw rhag mynd ar dir y taenwyd gwrteithiau organig a gwellhawyr pridd arno – gwaharddiad o 8 wythnos ar gyfer moch a 3 wythnos ar gyfer da byw o fath arall. Bydd y DU yn caniatáu'r defnydd hwn cyn belled â'n bod yn fodlon na cheir risg o ledaenu clefyd trosglwyddadwy difrifol. Os ceir amheuaeth neu gadarnhad o glefyd hysbysadwy, efallai y bydd taenu'r deunyddiau hyn yn cael ei gyfyngu neu ei wahardd.

Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 4 Rheoliad (CE) rhif 142/2011 yn pennu'r gofynion o ran cadw cofnodion.

**(d) Opsiwn i osod amodau er mwyn caniatáu i gregyn pysgod cregyn gael eu taenu ar y tir: Erthygl 14(h)**

Nid yw'r DU yn bwriadu manteisio ar y mesur hwn. Mae'r DU wedi bod yn gweithio gyda'r diwydiant i lunio rheolau ar gyfer tynnu meinwe meddal oddi ar bysgod cregyn. Nid yw cregyn heb feinwe meddal arnynt yn dod o fewn cwmpas y Rheoliad, ac felly gellir eu taenu ar y tir yn amodol ar unrhyw fesurau rheoli a all fod yn berthnasol. Mae cregyn â chnawd arnynt yn parhau i gael eu hystyried fel deunyddiau Categori 3 a rhaid eu gwaredu'n unol â hynny.

**(e) Opsiwn i osod amodau er mwyn caniatáu i blisg wyau gael eu taenu ar y tir: Erthygl 14(h)**

Mae'r DU yn bwriadu manteisio ar y mesur hwn dan amodau er mwyn sicrhau diogelwch microbiolegol. Yn achos gweithredwyr sy'n dymuno taenu plisg wyau ar y tir heb i'r plisg fod wedi'u trin â gwres, rhaid iddynt gofrestru a chydymffurfio â'r amodau canlynol:

i. gellir olrhain yr wyau yn ôl at heidiau dodwy sydd wedi'u samplu gan y gweithredwr a'r Awdurdod Cymwys dan ofynion y Rhaglen Genedlaethol Rheoli Salmonela mewn heidiau sy'n dodwy yn y DU (neu raglenni cywerth mewn gwledydd y tu allan i'r DU);

ii. cafodd yr wyau eu dodwy gan heidiau a brofodd yn negyddol am y serofarau Salmonela y gosodir targed fel Cymuned ar gyfer eu gostwng yn Rheoliad (CE)

rhif 1168/2006 ac yn unol â’r protocol profi a nodir yn y Rhaglen Genedlaethol Rheoli Salmonela yn ystod cyfnod dodwy’r heidiau ac nid yw’r heidiau neu’r wyau a gynhyrchir gan yr heidiau’n ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau a osodwyd dan ddeddfwriaeth genedlaethol neu ddeddfwriaeth yr UE;

ii. mae’r wyau wedi mynd trwy broses dechnegol er mwyn sicrhau na fydd gweddillion yr wy yn y cynnyrch gorffenedig yn fwy na 4%.

Bydd yr arfer o daenu plisg wyau heb iddynt gael eu prosesu â gwres yn cael ei hadolygu ac efallai y bydd yn cael ei gwahardd os ceir amheuaeth neu gadarnhad o glefyd hysbysadwy a/neu haint adroddadwy.

Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 4 Rheoliad (CE) rhif 142/2011 yn pennu’r gofynion o ran cadw cofnodion.

**(f) Opsiwn i osod amodau ar ddefnyddio gwrteithiau organig a gwellhawyr pridd: Erthygl 32**

Mae’r DU yn bwriadu manteisio ar y mesur hwn. Rhaid i wrteithiau organig a gwellhawyr pridd sydd wedi deillio o brotein anifeiliaid wedi’i brosesu gael eu cymysgu cyn iddynt gael eu taenu ar y tir (e.e. gyda naddion pren) er mwyn sicrhau nad ydynt yn ddeniadol nac yn flasus i anifeiliaid a ffermir. Rhaid iddynt gydymffurfio â’r gofynion a bennir yn Atodiad XI Rheoliad (CE) rhif 7066/2010. Rhaid iddynt gael eu rhoi ar y farchnad yn unol ag Erthygl 32 Rheoliad (CE) rhif 1069/2009. Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 4 Rheoliad (CE) rhif 7066/2010 yn pennu’r gofynion o ran cadw cofnodion.

Gellir dod o hyd i ganllawiau Iechyd Anifeiliaid ar wrteithiau organig a gwellhawyr pridd yma

**(g) Opsiwn i waredu hen fwyd a bwyd anifeiliaid anwes wedi’i brosesu mewn safleoedd tirlenwi: Erthygl 7 Rheoliad (CE) rhif 142/2011**

Mae’r DU yn bwriadu manteisio ar y mesur hwn. Câi hyn ei ganiatáu eisoes fel mesur pontio dan ddeddfwriaeth flaenorol. Bydd y DU yn caniatáu i’r arfer hon barhau fel mesur parhaol. Rhaid gwneud hyn yn unol ag Erthygl 7 Rheoliad (CE) rhif 142/2011. Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 1 yn pennu’r gofynion o ran cadw cofnodion.

**(h) Opsiwn i awdurdodi cyflenwi llaeth tor o un fferm i fferm arall: Atodiad X Pennod II Adran IV Rhan II Paragraff 4 Rheoliad (CE) rhif 142/2011.** Mae’r DU yn bwriadu manteisio ar y mesur hwn, yn amodol ar awdurdodiad, a chyn belled ag y bydd y llaeth tor yn deillio o anifeiliaid buchol a ddaw o fuchesi sy’n rhydd o TB. Bydd hyn yn galluogi ffermwyr i symud llaeth tor amrwd rhwng ffermydd e.e. i fwydo llo amddifad. Dan y rhanddirymiad hwn, ni ellir cyflenwi llaeth tor amrwd sydd wedi deillio o anifeiliaid mewn buchesi sydd dan gyfyngiadau oherwydd TB.

Gellir dod o hyd i ganllawiau Iechyd Anifeiliaid ar laeth yma

**(i) Opsiwn i awdurdodi gosod amodau ar y farchnad mewn gwlân heb ei brosesu er mwyn rhwystro risgiau iechyd rhag trosglwyddo: Atodiad XIII**

**Pennod VII Rheoliad (CE) rhif 142/2011**

Mae'r DU yn bwriadu manteisio ar y mesur hwn. Bydd yn caniatáu i weithredwyr drin gwlân heb ei brosesu trwy gofrestru gyda swyddfa Iechyd Anifeiliaid a chyda chanllawiau ychwanegol ar ei drin yn ddiogel. Mae Erthygl 17 ac Atodiad VIII Pennod IV Adran 1 Rheoliad (CE) rhif 142/2011 yn pennu'r gofynion o ran cadw cofnodion.

Gellir dod o hyd i ganllawiau Iechyd Anifeiliaid ar wlân yma

## 16. Troseddau a chosbau dan y Rheoliadau

Mae Rheoliadau'r UE yn uniongyrchol gymwys yn yr holl Aelod-wladwriaethau ac mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â nhw. Rhaid i sgil-gynhyrchion anifeiliaid gael eu trin, eu hadnabod, eu cludo a'u defnyddio neu eu gwaredu'n unol â gofynion y ddeddfwriaeth.

Bydd y rhan fwyaf o weithredwyr yn gweithredu dan gymeradwyaeth neu gofrestriad gan swyddfa Iechyd Anifeiliaid. Swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid yw'r prif gorff arolygu mewn perthynas â safleoedd sy'n trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Maent yn gyfrifol am gymeradwyo safleoedd, a gallant atal y gymeradwyaeth dros dro neu ei thynnu'n ôl os na fydd gweithredwyr yn cydymffurfio ag amodau'r Rheoliad neu'r gymeradwyaeth, neu pan geir risg i iechyd pobl neu i iechyd anifeiliaid. Fel arfer, awdurdodau lleol fydd yn cymryd camau gorfodi eraill, fel cyflwyno hysbysiadau neu erlyn.

### (a) Hysbysiadau

Pan fo trosedd wedi'i chyflawni, efallai y bydd arolygydd yn cyflwyno hysbysiad i unrhyw un sy'n meddu ar, neu sy'n rheoli, sgil-gynhyrchion anifeiliaid, gan fynnu bod y sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cael eu gwaredu fel y nodir yn yr hysbysiad (a phe bai angen, gan nodi sut dylid storio'r sgil-gynhyrchion cyn iddynt gael eu gwaredu); neu'n cyflwyno hysbysiad i feddiannydd unrhyw safle yn ei wahardd rhag dod ag unrhyw sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar y safle, neu'n caniatáu iddo wneud hynny dim ond yn y ffordd a nodir yn yr hysbysiad.

Yn gyffredinol, yr awdurdod lleol, fel y prif gorff gorfodi, fydd yn cyflwyno'r hysbysiad, ond gall swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid gyflwyno hysbysiadau hefyd.

### (b) Atal cymeradwyaeth/awdurdodiad dros dro a/neu dynnu cymeradwyaeth/awdurdodiad yn ôl

Fel arall, pan fo gweithredwr yn gweithredu dan gymeradwyaeth neu awdurdodiad, a phan fo'n cyflawni trosedd, mae gan swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid y pŵer i atal y gymeradwyaeth dros dro, hyd nes y bydd modd i'r gweithredwr ddangos y gall gydymffurfio'n foddhaol â'r gyfraith unwaith eto. Er enghraifft, efallai na fydd y safle'n trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn unol â'r Rheoliad, ac efallai y bydd swyddfa Iechyd Anifeiliaid yn penderfynu bod angen atal cymeradwyaeth y safle dros dro hyd nes y bydd y deunydd dan sylw wedi'i waredu'n unol â'r ddeddfwriaeth a hyd nes y bydd y safle wedi'i ddihalogi'n llwyr.

Mewn rhai sefyllfaoedd – er enghraifft, mewn achosion difrifol iawn o dorri'r Rheoliadau neu pan fo gweithredwr yn peidio â chydymffurfio â'r gyfraith yn barhaus

– mae gan swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid y pŵer i dynnu cymeradwyaeth y safle'n ôl yn gyfan gwbl. Ar ôl i gymeradwyaeth y safle gael ei thynnu'n ôl, efallai na fydd modd iddo drin na derbyn sgil-gynhyrchion anifeiliaid mwyach.

### (c) Erlyn

Ymhellach, yn achos enghreifftiau difrifol o dorri rheolau, yr ystyrir eu bod yn fygythiad i iechyd pobl a/neu i iechyd anifeiliaid, efallai y bydd camau erlyn yn cael eu cymryd. Y cosbau ar euogfarn ddiannod yw dirwy hyd at yr uchafswm statudol neu garchar am hyd at dri mis, neu'r ddau; neu, ar euogfarn ar dditiad, dirwy neu garchar am hyd at ddwy flynedd, neu'r ddau.

## 17. Mewnforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Mae'r gofynion mewn perthynas â mewnforio i'r UE sgil-gynhyrchion anifeiliaid o drydydd gwledydd (oddi allan i'r UE) yn Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 a Rheoliad Gweithredu (CE) rhif 142/2011 yn diweddaru ac yn cydgrynhoi mesurau rheoli blaenorol, a byddant yn cael eu rhoi mewn grym yng Nghymru gan Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011. Nid yw'r gofynion mewnforio yn y Rheoliadau newydd wedi newid yn sylweddol o gymharu â'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd, ond mae'n werth tynnu sylw at rai newidiadau allweddol (sy'n tueddu i ddadreoleiddo, gan ganiatáu i'r diwydiant ddefnyddio mwy ar sgil-gynhyrchion anifeiliaid gyda llai o ymyrraeth gan y Llywodraeth):

- Bydd Rheoliad Comisiwn (CE) Rhif 2007/2006 yn cael ei ddiddymu a bydd ei ddarpariaethau'n cael eu hymgorffori gyda newidiadau cymharol fân yn unig, yn cynnwys ehangu'r diffiniad o gynhyrchion canolradd;
- Bydd Rheoliad Comisiwn (CE) Rhif 878/2004/EC fel y'i diwygiwyd hefyd yn cael ei ddiddymu a bydd ei ddarpariaethau'n cael eu hymgorffori; bydd yn ofynnol o hyd i awdurdodau cymwys (mewn Aelod-wladwriaethau) awdurdodi'r arfer o fewnforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid penodol, ond dan amodau llai rhagnodol;
- mae'r risg a briodolir i rai sgil-gynhyrchion anifeiliaid arbennig wedi'i hailasesu, ac mae rhai sgil-gynhyrchion anifeiliaid wedi'u hailddosbarthu o fod yn Gategori 2 i fod yn Gategori 3, lle mae'r risg yn isel, gan gynyddu'r posibiliadau o safbwynt eu defnyddio;
- yn awr, bydd modd i ddiwydiant ddefnyddio mwy ar rai deunyddiau Categori 1 mewn amgylchiadau arbennig e.e. ar gyfer cynhyrchion canolradd a chynhyrchion gwaed heb eu trin ac wedi'u trin;
- mae rheolau wedi'u cynnwys yn ymwneud â mewnforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar gyfer samplau ymchwil a diagnostig, samplau masnach (e.e. ar gyfer profi peiriannau) ac eitemau arddangos (e.e. ar gyfer gweithgareddau artistig). Bydd yn rhaid i awdurdodau cymwys (mewn Aelod-wladwriaethau) ystyried y rheolau yma wrth awdurdodi'r arfer o fewnforio'r cynhyrchion hyn, a bydd yn rhaid i ddiwydiant gadw atynt. Er enghraifft, bydd yn rhaid i samplau masnach ac eitemau arddangos ddod i mewn i'r UE trwy Fan Archwilio ar y Ffin a bydd yn rhaid cynnal archwiliadau milfeddygol arnynt.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y prif newidiadau ar y tudalennau mewnforio cynhyrchion anifeiliaid ar [wefan Defra]

## 18. Allforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid

Gellir dod o hyd i wybodaeth am allforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid ar y tudalennau allforio cynhyrchion anifeiliaid ar wefan Defra

## 19. Cwestiynau cyffredin

### C1: Rwy'n ffermwr ac mae gennyf stoc drig – pa reolau mae'n rhaid i mi eu dilyn?

**A:** Pan fydd da byw yn marw ar eich fferm, oni bai bod gennych **losgydd cymeradwy ar y fferm** rhaid cael gwared â'r carcas mewn safle cymeradwy, er enghraifft:

- iard gelanedd
- cynel hela
- fferm gynrhon
- llosgydd
- safle rendro

Gallwch wneud trefniadau preifat i waredu eich stoc drig mewn safle cymeradwy, neu gallwch wneud trefniadau trwy gyfrwng y Cynllun Stoc Drig Cenedlaethol. I gael gwybod sut i wneud hyn, cysylltwch â'r **Cwmni Stoc Drig Cenedlaethol** trwy ei wefan neu ffoniwch 0845 0548888.

Os ydych eisiau gwneud eich trefniadau eich hun, gall eich **Swyddfa Iechyd Anifeiliaid** leol roi rhestr i chi o ierdydd celanedd, cynelau hela, ffermydd cynrhon, llosgyddion neu safleoedd rendro. Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich Swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol yma

| |
|---|
| **Rhaid i chi gysylltu â'ch Swyddfa Iechyd Anifeiliaid leol yn syth os ydych yn credu bod anifail wedi marw oherwydd clefyd hysbysadwy.** |

**Gwahardd claddu neu losgi stoc drig yn yr awyr agored:** Caiff claddu neu losgi neu waredu stoc drig trwy fodd arall yn yr awyr agored ei wahardd oherwydd y risg o ledaenu clefyd yn sgil gweddillion yn y pridd, mewn dŵr daear neu ar ffurf llygredd aer. Mae'r gwaharddiad yn berthnasol i sgil-gynhyrchion anifeiliaid hefyd, yn cynnwys brychau ac anifeiliaid marw-anedig. Yn y DU, yr unig eithriadau i'r gwaharddiad yw:

- mewn ardaloedd anghysbell – yng Nghymru, yr ardaloedd anghysbell yw Ynys Enlli, Ynys Bŷr, Ynys Dewi ac Ynys Echni.
- mewn ardaloedd lle mae mynediad yn anodd, er enghraifft pan fo anifail wedi syrthio i lawr hafn neu fynd yn sownd mewn cors a phan na ellir mynd ato. Efallai y bydd angen i chi gysylltu â'r Awdurdod Lleol er mwyn iddynt allu asesu'r safle cyn i chi gladdu neu losgi stoc drig.
- yn ystod achosion o glefydau hysbysadwy, oherwydd diffyg capasiti mewn safleoedd rendro a llosgyddion, neu pe bai cludo carcasau'n lledaenu clefyd.

### C2: Rwy'n berchen ar geffyl. Pa reolau y bydd yn rhaid i mi eu dilyn pan fydd ceffyl yn marw?

**A:** Mae Rheoliad (CE) rhif 1069/2009 yn cyflwyno rhanddirymiad yn Erthygl 19(a) sy'n caniatáu i geffylau gael eu claddu. Fodd bynnag, oherwydd pryderon yn ymwneud â

chladdu equidae yn annetholus, argymhellwn y dylai perchnogion equidae marw yn gyntaf ystyried gwaredu'r carcas trwy'r llwybr arferol ar gyfer sgil-gynhyrchion anifeiliaid. Fel arall, gall perchnogion ystyried claddu'r anifail, yn amodol ar unrhyw fesurau rheoli gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu'r Awdurdod Lleol. Mae'r mesurau rheoli hyn yn debygol o fynnu y dylai safleoedd claddu ceffylau gydymffurfio â'r canlynol:

- eu bod o leiaf 250 metr oddi wrth unrhyw ffynnon, twll turio neu bistyll sy'n cyflenwi dŵr
- eu bod o leiaf 30 metr oddi wrth unrhyw bistyll neu gwrs dŵr arall, ac o leiaf 10 metr oddi wrth ddraen cae
- bod o leiaf 1 metr o isbridd i'w gael islaw gwaelod y twll claddu, gan ddarparu ar gyfer twll sy'n ddigon dwfn i allu gorchuddio'r carcas ag o leiaf 1 metr o bridd
- sicrhau na cheir dŵr yng ngwaelod y twll, pan gaiff ei gloddio gyntaf.

Gallwch hefyd waredu eich ceffyl anwes mewn amlosgfa anifeiliaid anwes; neu os ydych yn aelod o Gwmni Stoc Drig Cenedlaethol, gallwch ddefnyddio ei wasanaeth casglu i nôl eich ceffyl.

**C3: Rwy'n rhedeg busnes manwerthu, arlwyo neu weithgynhyrchu bwyd. Pa reolau mae'n rhaid i mi eu dilyn ar gyfer gwaredu fy ngwastraff?**

**A:** Bydd sgil-gynhyrchion anifeiliaid sy'n deillio o safleoedd arlwyo, manwerthu, cyfanwerthu, gweithgynhyrchu a dosbarthu, siopau cyfleustra, marchnadoedd bwyd, siopau cig a siopau bara fel arfer yn syrthio i un o blith tri chategori – 1) cig a physgod amrwd, 2) bwydydd na fwriedir i bobl eu bwyta mwyach, 3) gwastraff arlwyo.

**1.1 Mae Cig a Physgod Amrwd yn cynnwys**

- cig heb ei goginio, pysgod neu fwyd môr amrwd wedi'u caenu (e.e. gan friwsion bara neu gytew) neu mewn saws
- cig wedi'i halltu, fel bacwn
- cig amrwd (yn cynnwys selsig, byrgyrs ac ati), dofednod, pysgod a bwyd môr mewn pecynnau neu'n rhydd.

SYLWER: Ni chaniateir i chi goginio cig amrwd neu bysgod amrwd er mwyn newid eu statws i fod yn gynhyrchion wedi'u coginio.

**1.2** Caiff bwydydd na fwriedir i bobl eu bwyta mwyach eu diffinio fel cynhyrchion sydd wedi deillio o anifeiliaid, neu fwydydd sy'n cynnwys cynhyrchion sydd wedi deillio o anifeiliaid, na fwriedir i bobl eu bwyta mwyach oherwydd rhesymau masnachol neu oherwydd problemau gweithgynhyrchu neu ddiffygion pecynnu neu ddiffygion eraill na fydd unrhyw risg i iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid yn codi o'u herwydd.

**1.3** Caiff **'gwastraff arlwyo'** ei ddiffinio fel bwyd gwastraff o bob math (yn cynnwys olew coginio wedi'i ddefnyddio) sy'n tarddu o fwytai, cyfleusterau arlwyo a cheginau, yn cynnwys ceginau canolog a cheginau aelwydydd.

Bydd y mathau uchod o wastraff bwyd yn cael eu hystyried fel sgil-gynhyrchion

anifeiliaid pan na fwriedir i bobl eu bwyta mwyach. Gall arwydd o fwriad o'r fath gynnwys achosion pan fo cynnyrch wedi'i dynnu oddi ar y silff gan ei fod wedi pasio'i ddyddiad gwerthu neu ei ddyddiad defnyddio, neu gan ei fod wedi cael ei ddifrodi, ei ddifwyno neu ei halogi i'r graddau na fyddai'n briodol mwyach ei arddangos i'w werthu. Gall safleoedd a chanddynt fwyd gwastraff i'w waredu wneud hynny mewn nifer o ffyrdd, gan ddibynnu ar y categori mae'r bwyd gwastraff dan sylw yn perthyn iddo (gweler uchod):

**B: Yn achos Gwastraff Bwyd Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid O BOB MATH, gellir**

- ei waredu mewn safle rendro
- ei waredu mewn safle llosgi
- ei drawsnewid mewn safle technegol cymeradwy
- ei drawsnewid mewn safle compostio neu fio-nwy cymeradwy
- ei drin mewn safle hydrolysis alcalin cymeradwy
- ei ddefnyddio fel deunydd crai mewn safle bwyd anifeiliaid cymeradwy
- ei ddefnyddio i fwydo anifeiliaid sw

Gellir gwaredu bwydydd na fwriedir i bobl eu bwyta mwyach (heb gynnwys cig, pysgod, bwyd môr amrwd) a **gwastraff arlwyo o bob math** mewn safleoedd tirlenwi.

Gellir gwaredu rhywfaint bach o hen fwyd (gwastraff manwerthu a ffatrïoedd) mewn safleoedd tirlenwi. Caiff 'rhywfaint bach' ei ddiffinio fel hyd at 20kg o hen fwyd yr wythnos. Yr uchafswm wythnosol yw hwn, nid y cyfartaledd dros y flwyddyn.

**C: Gellir ailgylchu rhai mathau o wastraff bwyd a'u bwydo i anifeiliaid fferm**

**OND NID GWASTRAFF O SAFLEOEDD ARLWYO NA GWASTRAFF ARLWYO O UNRHYW FATH**, hyd yn oed os yw'n tarddu o fwytai/ceginau llysieuol. Ni chaniateir ailgylchu gwastraff arlwyo (yn cynnwys olew coginio wedi'i ddefnyddio) sy'n tarddu o sefydliadau arlwyo ar gyfer ei fwydo i anifeiliaid fferm. Caiff bwytai/ceginau llysieuol (ond nid rhai figan) eu cynnwys yn y gwaharddiad hwn, oherwydd efallai y byddant yn defnyddio rhai cynhyrchion sydd wedi deillio o anifeiliaid, fel cynhyrchion llaeth.

**MAE HYN YN BERTHNASOL I RAI MATHAU O HEN FWYDYDD YN UNIG** sy'n tarddu o siopau bara, archfarchnadoedd, siopau manwerthu, gweithgynhyrchwyr creision a siopau pethau melys (er, nid o geginau a bwytai sydd wedi'u lleoli ar y safleoedd hyn).

Mae eitemau bwyd y gellir eu hailgylchu i'w defnyddio mewn porthiant anifeiliaid fferm yn cynnwys:

- nwyddau wedi'u pobi (bara, teisennau, teisennau toes a bisgedi), llysiau, pasta, siocled, melysion, a chynhyrchion eraill, fel grawnfwyd, a all gynnwys cywair llaeth neu fraster wedi'i doddi, llaeth, cynhyrchion llaeth, cyflasynnau, wy, mêl, a gelatin nad yw'n deillio o anifeiliaid cnoi cil (hynny yw, o foch neu ddofednod) – cyn belled nad yr eitemau hyn fydd y prif gynhwysyn. Ni ddylent gynnwys wyau amrwd, cig, pysgod, na chynhyrchion neu gymysgeddau sydd wedi deillio o gig neu bysgod/sy'n cynnwys cig neu bysgod – ac ni ddylent fod wedi dod i gysylltiad â'r pethau hyn.

- llaeth, cynhyrchion llaeth cyn belled na chânt eu cynnwys mewn cynhyrchion gorffenedig a fydd yn cael eu gwerthu fel porthiant anifeiliaid fferm h.y. dim ond i geidwaid sydd wedi'u cofrestru ar y gofrestr laeth, a weinyddir gan swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid, y gellir eu dosbarthu.

- dim ond ffatrïoedd bwyd (neu safleoedd rendro sgil-gynhyrchion anifeiliaid) a all anfon wyau a chynhyrchion wyau ar gyfer eu cynnwys mewn porthiant anifeiliaid fferm, ac ni all safleoedd manwerthu neu archfarchnadoedd anfon eitemau o'r fath i'r perwyl hwn.

**BUSNES PORTHIANT** – Os bydd busnes manwerthu bwyd, archfarchnad neu fusnes gweithgynhyrchu bwyd yn cyflenwi hen fwyd i'w ddefnyddio fel porthiant anifeiliaid, daw'n fusnes porthiant dan y Rheoliadau Hylendid Bwyd (Rheoliad (CE) Rhif 183/2005). Mae gofynion y rheoliadau hyn yn mynnu: bod angen cofrestru; mai hen fwydydd diogel yn unig y dylid eu defnyddio; a bod mesurau a dulliau rheoli'n cael eu rhoi ar waith i atal yr hen fwydydd hyn rhag cael eu halogi gan gig neu gynhyrchion anghymwys eraill sy'n deillio o anifeiliaid. **Os ydych eisiau cyflenwi bwyd gwastraff i'w fwydo i dda byw, cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael arweiniad pellach.**

**I gael mwy o wybodaeth fanwl, gweler canllawiau Iechyd Anifeiliaid** yma

> **SYLWER:** Os ydych yn safle manwerthu sydd â dim ond **rhywfaint bach** o sgil-gynhyrchion anifeiliaid i'w gwaredu (llai nag 20kg yr wythnos), gallwch waredu pysgod/cig amrwd trwy ddefnyddio'r llwybrau arferol, yn hytrach na thrwy gasgliad ar wahân. Cysylltwch â'ch adran Safonau Masnach leol i gael mwy o wybodaeth.

### C4. Beth yw dulliau amgen?

Dulliau o brosesu sgil-gynhyrchion mewn ffyrdd gwahanol i'r safonau rendro traddodiadol a bennir yn Atodiad III Pennod III Rheoliad (CE) rhif 142/2011 (dulliau 1 i 7) yw dulliau amgen.

Caiff rhai dulliau amgen eu rhestru yn Atodiad IV Pennod IV Adran 2, ac maent yn cynnwys defnyddio safleoedd biodiesel, hydrolysis alcalin a nwyeiddio Brookes. Bydd angen cael cymeradwyaeth gan swyddfeydd Iechyd Anifeiliaid ar gyfer dulliau amgen, yn yr un modd ag ar gyfer safleoedd prosesu confensiynol – er, yn amlwg, byddant yn gweithredu'n ôl safonau gwahanol.

Ymhellach, mae Erthygl 20 Rheoliad rhif 1069/2009 ac Erthygl 16 ac Atodiad VII Rheoliad (CE) rhif 142/2011 yn pennu darpariaethau a fformat safonol ar gyfer cyflwyno dulliau amgen newydd na chânt eu caniatáu gan y Rheoliad ar hyn o bryd, fel y gellir mabwysiadu technolegau neu ddulliau trin newydd. Yn y lle cyntaf, rhaid i weithredwr sy'n dymuno mabwysiadu dull amgen ar gyfer trin sgil-gynhyrchion anifeiliaid gysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru (yr awdurdod cymwys) i drafod sut gellir bwrw ymlaen â'r cais.

### C5. Ble gallaf gael mwy o wybodaeth am Reoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid?

- I gael mwy o wybodaeth am y gofynion uchod, ewch i we-dudalen sgil-

gynhyrchion anifeiliaid Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- I gael mwy o wybodaeth am fewnforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid, ewch i wefan mewnforio sgil-gynhyrchion anifeiliaid Defra.

- I gael mwy o ganllawiau manwl ar ddefnydd a ganiateir, ynghyd â chanllawiau manwl ar amodau'n ymwneud â storio, trin, cludo a phrosesu sgil-gynhyrchion anifeiliaid, ewch i'r wefan Iechyd Anifeiliaid.